Sain Tathan

Cartref i'r Academi Dechnegol Amddiffyn
a Pharc Busnes Awyrofod

metrix

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Gweithdai a Grwpiau Buddiant

CAFODD Y WEINYDDIAETH AMDDIFFYN SAIN TATHAN EI DEWIS I DDYFOD YN GARTREF I ACADEMI DECHNEGOL AMDDIFFYN NEWYDD SY'N ARBENIGO MEWN DARPARU HYFFORDDIANT TECHNEGOL I'R LLUOEDD ARFOG. HEFYD, MAE GAN LYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU GYNIGION AR GYFER PARC BUSNES AWYROFOD NEWYDD A FYDD YN ADEILADU AR DREFTADAETH DE CYMRU YN Y DIWYDIANT AWYROFOD.

Cynhelir y gweithdy Cyfleusterau Cymunedol ar:

Dydd Iau 4 Rhagfyr
Clwb Golff RAF Sain Tathan,
Heol Clive, Sain Tathan
18:30 - 20:30

Cynhelir y gweithdy cludiant ar:

Dydd Mawrth 9 Rhagfyr
Y Man Ymgynnull, Sain Tathan
18:30 - 20:30

Cofrestrwch erbyn 1 Rhagfyr

Mae tîm Sain Tathan wedi ymrwymo i gynnwys y gymuned leol yn natblygiad ei gynlluniau, ac mae'n bleser ganddynt gyhoeddi y bydd cyfres o weithdai a grwpiau buddiant yn cael eu cynnal yn ystod y misoedd i ddod. Bydd y digwyddiadau hyn yn darparu cyfle i aelodau'r gymuned leol drafod nifer o bynciau mewn mwy o fanylder gyda'r tîm prosiect a helpu i ddatblygu'r prif gynllun. Estynnir croeso cynnes i chi fynychu un neu fwy ohonynt.

Bydd y ddau weithdy cyntaf yn canolbwyntio ar Gludiant a Chyfleusterau Cymunedol - gweler y dyddiadau a'r lleoliadau ar y chwith. Cynhelir dau grŵp buddiant sy'n ystyried Lles yr Amgylchedd a'r Gymuned ar ddechrau 2009 a chadarnheir y dyddiadau a'r lleoliadau yn fuan.

Os hoffech fynychu un neu fwy o'r gweithdai neu'r grwpiau buddiant cysylltwch â ni er mwyn cofrestru erbyn 1 Rhagfyr:

drwy e-bost: enquiries@st-athanconsultation.co.uk

dros y ffôn: 0845 618 0016

drwy'r post: Freepost RRKG-AZTG-JLJX,
Camargue (St Athan), Eagle Tower,
Montpellier Drive, Cheltenham, GL50 1TA